



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



• Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •

[ysgolgybraeg.cymru](http://ysgolgybraeg.cymru)

## Diogelwch y We

### Fideo gan y Pwyllgor E-ddiogelwch a Chyngor Ysgol

Roedd hi'n ddiwrnod Diogelwch y We ddydd Mawrth, ac mae pob dosbarth wedi bod yn brysur yn dysgu am ffyrdd i gadw'n ddiogel. Cawsom ymweliad gan P.C Hannah, a chafwyd sesiwn ysgol gyfan ar ddiwedd ein gwasanaeth ddydd Mercher gan y criw Pwyllgor E-ddiogelwch ar sut i gadw'n ddiogel.

Aeth y Cyngor Ysgol ati hefyd i weithio ar y cyd gydag eraill i greu fideo i'n hatgoffa o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein, a lleihau'r amser rydyn ni'n treulio o flaen sgrîn – ewch i wylïo'r fideo yma:

<https://www.instagram.com/p/DF823MVNdXn/>

## Internet safety

### A video from the E-Safety Committee and School Council

*It was Internet Safety Day on Tuesday. All classes have been busy learning about ways to stay safe online. We had a visit from P.C Hannah, and there was a whole school session at the end of our assembly on Wednesday by the E-safety Committee members on how to keep safe.*

*The School Council also set about working together with others to create a video to remind us of the importance of keeping safe online, and reducing screentime - watch the video here:*

<https://www.instagram.com/p/DF823MVNdXn/>



## Cadw'r Plentyn Mewn Cof

Gweler y poster ar waelod y llythyr hwn sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer rhieni i a gofalwyr i gydweithio i gefnogi twf eu plant.

Mae'r sesiynau am ddim, yn gyfnodau o ddwyawr dros bedair wythnos, gan ddechrau mis Mawrth.

## Keeping the Child in Mind

*Please see the poster at the bottom of this letter which contains information for parents and carers to work together to support their children's growth.*

*The sessions are free, two-hour periods over four weeks, starting early March.*

## Y Gymraeg Gweithdy Lego

Os hoffech ymuno mewn prynhawn o ail-greu ardal Aberystwyth allan o Lego mewn gweithdy Cymraeg hwyliog, ewch i Amgueddfa Ceredigion yn ystod gwyliau hanner tymor!

Mae'r manylion llawn i'w gweld mewn poster ar waelod y llythyr hwn.

## The Welsh Language Lego workshop

*If you would like to join in an afternoon of recreating the Aberystwyth area out of Lego in a fun Welsh language workshop, then visit Ceredigion Museum during the half term holidays!*

*Full details can be seen in a poster at the bottom of this letter.*





### Bore Coffi

Diolch i aelodau'r G.Rh.A am drefnu'r Bore Coffi heddiw. Diolch i chi rieni a theuluoedd yr ysgol am ddod i brynu diod a chacen, i gymdeithasu ymhlith eich gilydd, ac am fwynhau perfformiadau blynyddoedd 3 a 4. Roedd clywed cân 'Hufen iâ' ar fore mor oer yn sicr wedi anfon iâs i lawr eich cefn!

Llwyddwyd i godi £188 – diolch yn fawr.

### Coffee Morning

Thank you to the members of the P.T.A for organising the Coffee Morning today. Thank you to the parents and families for coming to buy a hot drink and a cake, and for socialising together in the hall, and for enjoying the performances of years 3 and 4. Hearing the song 'Ice cream' on such a cold morning certainly sent chills down your spine!

We managed to raise £188 - thank you very much.

### Calendr Hanner Tymor


Dim ond wythnos sy'n weddill o'r hanner tymor hwn. Bydd calendr newydd yn cael ei baratoi yn ystod gwyliau hanner tymor.

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

### Half term Calendar

There's only a week remaining of this half term. A new calendar will be prepared during the half term holiday.

Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.



Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher

14/02/2025

[www.vsgolgybraeg.cymru](http://www.vsgolgybraeg.cymru)

**Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd**  
Parenting and Family Support

**Cadw'r Plentyn Mewn Cof**  
Canolfan Integredig i Blant Yr Eos

- Yn helpu rhieni a gofalwyr i gydweithio i gefnogi twf eu plant
- Datblygu dealltwriaeth rhieni o effaith eu perthnasoedd rhyngpersonol ar blant a phobl ifanc.
- Hyrwyddo dulliau cadarnhaol o leihau gwrthdaro rhwng rhieni.
- Archwilio pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol o fewn teuluoedd.

**Pryd?**  
Dydd Mawrth  
12:30yp - 2:30yp  
Yn dechrau 4-3-25  
Am 4 wythnos

**Gwybodaeth Archebu**  
Am fwy o wybodaeth, neu i archebu eich lle cysylltwch:  
Dwynwen- 07929 752 824  
Dwynwen.Huws4@ceredigion.gov.uk  
Rachel - 07816 601 612  
Rachel.Cutler@ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION  
County Council

Canolfan Integredig i Blant Yr Eos,  
Campws Llwyn yr Eos, Penparcau, SY23 1SH  
What3words//twymodd.roced.ildiodd

**Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd**  
Parenting and Family Support

**Keeping the Child in Mind**  
Yr Eos Integrated Children's Centre

- Helps parents and carers work together to support their children's growth
- Helps parents understand the importance of positive relationships within families
- Developing parents' understanding of the impact of their interpersonal relationships on children and young people.
- Promoting positive approaches to reducing parental conflict.

**When?**  
Tuesdays  
12:30pm - 2:30pm  
Starting 4-3-25  
For 4 weeks

**Booking Information**  
For more information, or to book your place please contact:  
Dwynwen- 07929 752 824  
Dwynwen.Huws4@ceredigion.gov.uk  
Rachel - 07816 601 612  
Rachel.Cutler@ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION  
County Council

Yr Eos Integrated Children's Centre  
Llwyn yr Eos Campus, Penparcau, SY23 1SH  
What3words//occur.passage.camcorder



# GWEITHDY LEGO

Prynhawn o ail-greu ardal  
Aberystwyth mas o Lego mewn  
gweithdy Cymraeg hwyliog (oed 6 - 11)

An afternoon of recreating the  
Aberystwyth area out of Lego in a  
fun Welsh language workshop (age 6-11)

**DYDD MERCHER**  
**26 CHWFROR**  
2 - 4yp  
**WEDNESDAY**  
**26 FEBRUARY**  
2 - 4pm

Am fwy o wybodaeth:  
For more information:  
[hannah.james@ceredigion.gov.uk](mailto:hannah.james@ceredigion.gov.uk)



## AMGUEDDFA CEREDIGION MUSEUM

FFORDD Y MŌR/TERRACE ROAD, ABERYSTWYTH, CEREDIGION, SY23 2AQ  
01970 633088 [HTTPS://CEREDIGIONMUSEUM.WALES](https://ceredigionmuseum.wales)



## DISABILITY 6 NATIONS RUGBY FEST

## GŴYL RYGBI ANABLEDD Y CHWE GWLAD

**IAU 20FED MAWRTH**  
**THURSDAY 20TH MARCH**  
**10:30-13:00**

Cysylltwch â | Contact:  
[oliver@scarlets.wales](mailto:oliver@scarlets.wales)

**PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**  
**ABERYSTWYTH UNIVERSITY**

